Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Hirwaun**
**Glannant Street**
**Hirwaun**
**Aberdâr**
**RhCT**
**CF44 9NF**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Hirwaun

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn Rhondda Cynon Taf. Mae 250 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed. Mae disgyblion wedi eu trefnu'n naw dosbarth, ac mae pump o'r rhain yn ddosbarthiadau oedran cymysg.

Mae tua 37% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 25% anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys pedwar disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae bron pob un o'r disgyblion o darddiad gwyn Prydeinig. Mae rhai disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym mis Medi 2011. Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym mis Hydref 2009.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae staff yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau lles disgyblion a'u bod yn darparu lle diogel, deniadol a saff iddynt ddysgu. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o ran y safonau academaidd y dylai disgyblion eu cyflawni. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digon da wrth iddynt symud trwy'r ysgol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Ar draws yr ysgol, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, galluog ac uchelgeisiol. Nid yw arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif yn ddigon da ac nid ydynt bob amser yn nodi a mynd i'r afael â meysydd pwysig y mae angen i'r ysgol eu gwella.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd yr addysgu a'r adborth i ddisgyblion

A2 Gwella safonau darllen, ysgrifennu a chyflwyniad gwaith disgyblion

A3 Gwella safonau disgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A4 Sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni gofynion a datblygu medrau disgyblion yn raddol

A5 Gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion

A6 Nodi a mynd i'r afael yn gywir â meysydd addysgu a dysgu pwysig y mae angen eu gwella a dwyn pob aelod o staff i gyfrif yn drylwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol.  Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o ran gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, yn enwedig o ran gwella eu medrau darllen. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn ddigon da.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd yn dda. Mae llawer ohonynt yn awyddus i esbonio beth maent yn ei wneud yn y dosbarth. Er enghraifft, yn y meithrin, mae disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau am eu gwaith ar y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n briodol pan fydd pobl eraill yn siarad, ac yn sgwrsio'n dda ag oedolion ac â'i gilydd yn Gymraeg a Saesneg. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o batrymau brawddeg a geirfa briodol i siarad amdanyn nhw eu hunain a'u hobïau yn Gymraeg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth briodol o ffoneg. Defnyddiant y wybodaeth hon yn llwyddiannus i'w helpu i ddatgodio geiriau anghyfarwydd. Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif ohonynt yn gwella eu rhuglder a'u hyder wrth ddarllen testunau syml. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddarllen yn amrywio gormod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen ac yn mwynhau trafod eu hoff awduron. Erbyn Blwyddyn 6, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen â rhuglder a mynegiant addas. Fodd bynnag, heblaw am rai disgyblion mwy abl, nid yw eu dealltwriaeth o wahanol destunau a'r defnydd o fedrau fel brasddarllen a bwrw golwg, wedi'i datblygu'n ddigonol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau Cymraeg syml a chyfarwydd gyda rhywfaint o ynganu cywir a dealltwriaeth.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon da yn Gymraeg nac yn Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae disgyblion sy'n fwy abl yn dechrau defnyddio ystod o eirfa addas yn eu gwaith, er enghraifft i ddisgrifio Batman fel rhywun sy'n gwisgo 'mwgwd du oherwydd eu hunaniaeth gudd'. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif ohonynt yn dechrau defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am ffoneg yn ddigon da i sillafu geiriau cyffredin yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod addas o gynulleidfaoedd gwahanol. Er enghraifft, ym Mlynyddoedd 3 a 4, maent yn ysgrifennu ffeiliau ffeithiau diddorol ar bryfed, a hunangofiannau manwl ym Mlynyddoedd 5 a 6. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau'n gywir ac nid ydynt yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gyson dda i drefnu eu gwaith. Ychydig iawn ohonynt sy'n defnyddio ystod eang o atalnodi neu eirfa aeddfed i ennyn diddordeb y darllenydd yn effeithiol. Mae disgyblion yn ysgrifennu yn Gymraeg yn rheolaidd gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa a phatrymau brawddeg. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn ysgrifennu llythyrau byr amdanyn nhw eu

hunain. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion bob amser yn deall yr hyn y maent wedi'i ysgrifennu. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd digon o ofal â'u llawysgrifen ac maent yn cyflwyno eu gwaith yn wael iawn.

Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn rheolaidd mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu ar lefel ddigon uchel gan fod athrawon yn rhoi gormod o strwythur iddynt.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu gafael gadarn ar rif. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithio gyda rhifau i fyny i 100 yn hyderus ac yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda i'w helpu i ddatrys problemau syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion sy'n fwy abl yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus i'w helpu i gynllunio digwyddiadau bywyd go iawn fel dylunio atyniad newydd i dwristiaid o fewn cyllideb benodol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn galw ffeithiau rhif i gof yn gyflym, ac nid ydynt bob amser yn dewis dulliau cywir o ddatrys problemau. Ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon da ac mewn cyd-destunau ystyrlon mewn pynciau eraill.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn raddol. Yn y dosbarth derbyn, maent yn dechrau rhaglennu teganau i symud mewn cyfeiriad penodol. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn creu cronfeydd data syml i gefnogi eu gwaith gwyddoniaeth ar gynefinoedd a gwneud cyflwyniadau ar destunau o'u dewis, er enghraifft eu hoff dimau pêl-droed. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid oes gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau TGCh cadarn ac nid ydynt yn eu defnyddio'n ddigon aml i gefnogi eu dysgu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Er enghraifft, defnyddiant foesau da wrth siarad ag ymwelwyr ac maent yn dal drysau'n gwrtais iddynt. Maent yn deall yn dda at bwy y dylent droi yn yr ysgol os byddant yn poeni neu'n gofidio. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt wybodaeth gref am sut i aros yn ddiogel, gan gynnwys pan fyddant ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 wedi creu posteri i godi ymwybyddiaeth am e-ddiogelwch.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth addas o sut dylent gadw'n iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd. Mae disgyblion hŷn yn trafod pa fwydydd sy'n iach iddynt ac yn cydnabod yr angen i wneud dewisiadau iach i'w galluogi i gael diet cytbwys. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol a thrwy chwarae gemau ar y maes chwarae. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddarpariaeth gyfyngedig yr ysgol, lleiafrif o ddisgyblion yn unig sy'n cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon allgyrsiol.

Mae disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau yng nghymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn perthyn i sawl grŵp llais y disgybl, fel y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae disgyblion yn ymgymryd â'r rolau hyn o ddifrif ac yn mwynhau eu gwaith. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion yn unig sy'n trefnu cyfarfodydd ac yn arwain gweithgareddau yn annibynnol.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthfawr i godi arian ar gyfer amrywiaeth o elusennau. Er enghraifft, y llynedd, rhedodd llawer o ddisgyblion mewn ras redeg leol i godi arian ar gyfer elusen ganser. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn casglu bwyd adeg y cynhaeaf i gyfrannu at fanc bwyd lleol. Trwy'r digwyddiadau hyn, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o bobl sy'n llai ffodus na nhw.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn barod i gymryd rhan mewn tasgau ystafell ddosbarth gyda brwdfrydedd. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n synhwyrol gyda phartner ac mewn grwpiau. Dangosant ystyrioldeb wrth wrando ar bobl eraill a dangosant barch at farn pobl wahanol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw llawer o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n ddigon da i'w galluogi i gwblhau tasgau i safon ddigon uchel. Nid yw llawer o ddisgyblion yn meddu ar y medrau angenrheidiol i'w galluogi i weithio'n annibynnol ac anaml y maent yn gwneud dewisiadau am beth yr hoffent ei ddysgu, a sut. Yn ychwanegol, nid yw mwyafrif y disgyblion yn dangos gwydnwch priodol pan fyddant yn wynebu problem, ac nid ydynt yn defnyddio ystod eang o strategaethau pan fyddant yn gweld eu gwaith yn heriol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol yn seiliedig ar destunau i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon yn sicrhau eu bod yn addysgu medrau yn raddol nac yn cwmpasu holl ofynion y cwricwlwm. Oedolion sy'n arwain y rhan fwyaf o weithgareddau, ac nid ydynt yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, medrus ac uchelgeisiol. Mae athrawon yn defnyddio ymweliadau'n dda i gyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â Chastell Caerdydd, ac ym Mlynyddoedd 5 a 6, maent yn ymweld â Llancaiach Fawr wrth astudio hanes. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno mentrau newydd i wella medrau darllen a deall a rhesymu rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r mentrau hyn ac nid ydynt wedi gwella medrau disgyblion yn y meysydd hyn eto.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1, maent yn rhestru anifeiliaid y gallwch ddod o hyd iddynt mewn gwahanol gynefinoedd, ac ym Mlynyddoedd 3 a 4, maent yn ysgrifennu posteri addysgiadol i ddangos eu bod yn chwilio am fôr-leidr. Fodd bynnag, mae llawer o athrawon yn darparu strwythur diangen ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn annibynnol nac yn ddigon da ar lefel addas.

Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn briodol mewn pynciau eraill, ac mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn wan. Nid oes rhaglen gynlluniedig i addysgu'r medrau hyn yn raddol, ac fe gaiff disgyblion gyfleoedd cyfyngedig i'w defnyddio i gefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill.

Nid yw'r ysgol yn rhoi egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith yn ddigon da. Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi cyfleoedd digon rheolaidd i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu ddewis beth maent yn ei ddysgu, a sut. Yn ychwanegol, nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau yn rheolaidd yn yr ardaloedd eang y tu allan i'r ysgol.

Mae athrawon yn defnyddio cynllun y cytunwyd arno'n lleol i gynllunio rhaglen waith gynhwysfawr sy'n datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn raddol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio cynlluniau'n briodol i sicrhau bod disgyblion yn gwella eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn ddigon da. Mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn llwyddiannus. Mae llawer o athrawon yn cynnwys elfennau o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn eu gwaith testun. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn astudio cestyll Cymru ac arlunydd lleol.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion, ac maent yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Mae bron pob un o'r athrawon wedi datblygu eu hystafelloedd dosbarth i fod yn amgylcheddau dysgu golau a deniadol. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb mwyafrif y disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ran y safonau y dylai disgyblion eu cyflawni, ac nid ydynt yn eu herio i gynhyrchu eu gwaith gorau. Nid ydynt bob tro'n cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion pob dysgwr yn ddigon da. Yn ychwanegol, yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn rheolaidd.

Er bod mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth cadarnhaol i ddisgyblion ar yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda, prin yw'r rhai sy'n rhoi arweiniad effeithiol i ddisgyblion ar sut gallant wella'u gwaith. Yn ychwanegol, nid ydynt yn cywiro camgymeriadau disgyblion yn gyson, gan gynnwys camgymeriadau sillafu ac atalnodi. O ganlyniad, nid yw adborth yn helpu disgyblion i wella safonau eu gwaith, ac mae llawer o ddisgyblion yn aml yn ailadrodd camgymeriadau. At ei gilydd, mae safon yr addysgu yn anfoddhaol.

Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio system electronig briodol i gofnodi'r asesiadau hyn. Fodd bynnag, nid yw barnau'r rhan fwyaf o athrawon ar gyflawniad disgyblion yn adlewyrchiad cywir o'r gwaith y maent yn ei gynhyrchu. Mae lleiafrif o asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod yn rhy hael.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ceir systemau priodol i olrhain a monitro cynnydd pob un o'r disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio data yn llwyddiannus i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn llythrennedd ac â lles emosiynol a sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â nifer o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol. Er enghraifft, o ganlyniad i weithio gyda staff cymorth ymddygiad, mae llawer o ddisgyblion ag anghenion emosiynol yn dangos mwy o ddiddordeb yn eu dysgu erbyn hyn. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu cynlluniau addysg unigol addas ar gyfer disgyblion targedig, ac maent yn monitro'r cynnydd a wnânt tuag at fodloni eu targedau unigol yn rheolaidd. Mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd â rhieni i drafod y cynlluniau hyn a darparu strategaethau defnyddiol ar eu cyfer i gynorthwyo eu plant gartref.

Mae gan yr ysgol linellau cyfathrebu cryf gyda rhieni a gofalwyr. Mae rhieni yn ystyried yr athrawon yn bobl hawdd mynd atynt ac maent yn siarad â nhw'n rheolaidd

am les a chynnydd eu plentyn ac ynglŷn â sut gallant eu helpu gartref. Er enghraifft, yn ddiweddar, trefnodd yr ysgol weithdy buddiol ‘Dysgu gyda’n Gilydd’ ar gyfer grŵp o rieni i wella eu medrau sylfaenol er mwyn iddynt allu helpu eu plentyn â gwaith cartref yn fwy hyderus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am gamddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar-lein trwy gynllun addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol. Mae’r nyrs gymunedol a’r heddwas cyswllt lleol yn cefnogi’r gwaith hwn yn dda trwy gyflwyno negeseuon pwysig i ddisgyblion. Er enghraifft, maent yn addysgu gwersi ar ffyrdd iach o fyw a chadw’n ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio’r rhyngrwyd. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae cyfleoedd i ddisgyblion fod â rhan weithredol yn ei bywyd a’i gwaith bob dydd. Mae grwpiau llais y disgybl yn helpu datblygu medrau dinasyddiaeth disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r pwyllgor eco yn ailgylchu dillad, dillad gwely ac esgidiau nad oes eu heisiau mwyach gan gymuned leol yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i ddisgyblion wneud cyfraniad gwerth chweil at gynllunio’r cwricwlwm, ac ychydig ohonynt yn unig sy’n arwain gweithgareddau’n annibynnol.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion hŷn ddeall sut i drefnu digwyddiad sy’n gwneud elw. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn helpu trefnu’r ffair lyfrau flynyddol. Mae disgyblion yn gwneud cais am rolau penodol ac fe gânt eu cyfweld ar gyfer y rolau, a’u penodi. Mae’r fenter lwyddiannus hon yn rhoi cyfle i ddisgyblion drin arian a chadw cofnodion ariannol.

Mae athrawon yn darparu gwersi a gweithgareddau gwerthfawr ar gyfer disgyblion i hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol briodol sy’n addysgu disgyblion am werthoedd craidd goddefgarwch a pharch a phwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae addoli ar y cyd yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fyfyrio ar eu gweithredoedd a sut maent yn effeithio ar bobl eraill. Mae athrawon yn defnyddio digwyddiadau ysgol gyfan i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ganlyniadau bwlio a hyrwyddo a dathlu ymddygiad da. Yn ychwanegol, mae disgyblion o Flwyddyn 5 a Blwyddyn 6 wedi elwa ar weithdai y mae’r ysgol wedi’u darparu ar ddelio â gwahaniaethu ym mhob ffurf. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae cyfleoedd defnyddiol i hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi cymryd rhan mewn gŵyl genedlaethol i ddathlu gwaith Shakespeare ac mae disgyblion wedi gweithio gydag arlunydd preswyl lleol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sydd wedi’i seilio ar ddarparu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol ar gyfer disgyblion lle maent yn teimlo’n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu. Mae’n rhannu’r weledigaeth hon yn effeithiol â staff, disgyblion a rhieni. Mae uwch arweinwyr yn gweithio’n galed i leihau effeithiau amddifadedd ar ddisgyblion. Fodd bynnag, nid oes ganddynt bob amser ddisgwyliadau digon uchel o staff na disgyblion ac nid ydynt yn herio tanberfformio yn drylwyr.

Ceir strwythur staffio priodol ac mae uwch reolwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyflwyno gwelliannau i feysydd addysgu a dysgu pwysig. Mae llawer o'r uwch dîm rheoli yn newydd i'w rolau. Maent wedi dechrau arwain mentrau, fel cyflwyno strategaethau i wella medrau rhesymu mathemategol disgyblion, datblygu medrau llafaredd disgyblion yn y cyfnod sylfaen, yn enwedig rhai bechgyn, a gwella darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu a yw'r mentrau hyn wedi ysgogi gwelliannau cynaliadwy.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu i edrych ar feysydd datblygu sy'n cysylltu â chynllun gwella'r ysgol ac yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i staff. Maent yn cynnig her addas i'r ysgol am agweddau ar ei gwaith, ond nid oes ganddynt bob amser ddealltwriaeth gadarn o safonau disgwyliedig disgyblion. Mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser yn gallu gwneud heriau trylwyr am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas i reoli perfformiad staff. Mae arweinwyr yn nodi targedau addas i ddatblygu blaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion unigol staff. Maent yn darparu hyfforddiant priodol sy'n cysylltu â thargedau unigol a blaenoriaethau ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dwyn staff i gyfrif yn ddigon da am berfformiad disgyblion nac am gymhwyso cyson, o ansawdd da, o ran mentrau ysgol cytûn.

Mae gweithdrefnau addas i arfarnu perfformiad yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r rhain wedi helpu staff a llywodraethwyr i nodi meysydd pwysig i'w datblygu, fel gwella medrau rhifedd disgyblion, a datblygu'r ardal awyr agored yn y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, ni chaiff y gweithdrefnau hyn bob amser eu cymhwyso'n effeithiol wrth nodi a mynd i'r afael yn gywir â meysydd addysgu a dysgu pwysig y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol hanes o ysgogi gwelliannau mewn rhai meysydd, fel darparu cymorth gwell ar gyfer anghenion emosiynol disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad a hyder disgyblion sy'n agored i niwed wedi gwella. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion a nodwyd. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn celf a drama ac yn cyflwyno rhaglenni cymorth i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol â'u gwaith.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn briodol. At ei gilydd, mae digon o athrawon a staff cymorth i fodloni anghenion disgyblion. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion ddigon o offer i gefnogi eu dysgu yn effeithiol yn y rhan fwyaf o feysydd, ond nid oes digon o offer addas i gyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer TGCh. Mae adeilad yr ysgol yn darparu amgylchedd deniadol i ddisgyblion ddysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynnig amgylchedd awyr agored addas nac ysgogol ar gyfer disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/04/2018